CLD YW10

Eirioli gyda phobl ifanc, ac ar eu rhan, fel bod eu buddiannau'n cael eu cynrychioli

## Trosolwg

Pwysigrwydd bod pobl ifanc yn cymryd rhan ac yn cael eu cynnwys yw un o'r gwerthoedd y disgwylir i weithwyr ieuenctid wybod amdano a'i gymhwyso'n ymarferol. Mae annog pobl ifanc i gymryd rhan ac eirioli yn helpu i roi hwb i sgiliau a hyder pobl ifanc.

Mae'r safon hon yn ymwneud â chynorthwyo pobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu i gynrychioli eu barn a'u gwerthoedd nhw a rhai eu cyfoedion, i eraill. Mae hefyd yn cynnwys nodi beth yw anghenion a diddordebau unigolion neu grwpiau o bobl ifanc a chyflwyno eu hanghenion a'u diddordebau yn gywir ac yn deg.

Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr ieuenctid sy'n cyfathrebu ac yn gweithredu ar ran pobl ifanc, a/neu sy'n annog pobl ifanc i gynrychioli eu hunain.

Mae'r safon hon yn addas ar gyfer pob ymarferydd gwaith ieuenctid.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis modelau eirioli i'w defnyddio gyda phobl ifanc
2. cytuno â phobl ifanc ar y materion allweddol y maent am fynd i'r afael â nhw drwy eirioli, y deilliannau a ddymunir, a'r gofynion gwybodaeth
3. cynorthwyo pobl ifanc i ymgysylltu â phobl briodol, gan gynnwys y rhai sy'n gwneud penderfyniadau
4. trafod cyfleoedd, a chytuno arnynt, i bobl ifanc gymryd rhan a chynrychioli eu hunain
5. cynorthwyo pobl ifanc i gasglu gwybodaeth ddigonol a dilys i'w galluogi i ategu a chyflwyno eu barn a'u diddordebau
6. cytuno â phobl ifanc ar sut i deilwra sut y cyflwynir eu barn a'u diddordebau i wahanol gynulleidfaoedd
7. helpu pobl ifanc i gynllunio'r hyn y maent am ei gyfathrebu
8. annog pobl ifanc i gynrychioli eu hunain a'u helpu i ddatblygu strategaethau i ymdopi ag unrhyw gyfyngiadau neu rwystrau y maent yn eu hwynebu wrth wneud hyn
9. adolygu'r wybodaeth sydd ar gael am anghenion pobl ifanc a chasglu gwybodaeth ychwanegol fel y gallwch chi eirioli ar eu rhan lle bo angen
10. cyflwyno diddordebau pobl ifanc i'r gynulleidfa, gwrando ar ymateb eraill a chynnig adborth adeiladol
11. cofnodi a chynnal cofnodion o'r wybodaeth a gyflwynir a'r camau a gymerir
12. adolygu deilliannau'r sylwadau gyda phobl ifanc, a chytuno ar gamau gweithredu priodol yn dilyn hynny
13. cydymffurfio â chodau ymarfer perthnasol, canllawiau a gofynion moesegol a gweithio yn unol â gwerthoedd gwaith ieuenctid

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. eich rôl a'ch cyfrifoldebau mewn perthynas ag eirioli barn a diddordebau pobl ifanc
2. modelau, dulliau a thechnegau eirioli
3. amgylchiadau nodweddiadol lle gall fod angen eirioli pobl ifanc
4. ffactorau sy'n effeithio ar allu pobl ifanc i gymryd rhan a chynrychioli eu hunain
5. dulliau asesu aeddfedrwydd, sgiliau a hyder pobl ifanc sy'n berthnasol i gyflwyno eu barn a'u diddordebau
6. pwysigrwydd pennu nodau realistig ar gyfer deilliannau camau cynrychioli
7. sut i gytuno ar yr eiriolaeth sydd ei hangen gyda phobl ifanc ac ar eu cyfer, gan gynnwys y nodau, y wybodaeth sydd ei hangen a sut i gyflwyno'r achos
8. yr ystod o sefyllfaoedd lle gallai fod angen cynrychioli, a'r ffactorau i'w hystyried wrth baratoi ar gyfer y rhain
9. â phwy i gysylltu er mwyn fynd ar drywydd diddordebau pobl ifanc
10. y math o wybodaeth sydd ei hangen a sut i gael gwybodaeth ychwanegol er mwyn eirioli'n gywir ac yn deg
11. pwysigrwydd paratoi wrth gyflwyno barn a dadleuon, anghenion a disgwyliadau'r gynulleidfa, a ffyrdd o gyflawni hyn
12. y gwahaniaeth rhwng y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a'r rhai sy'n dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau, a phwysigrwydd y naill fel y llall
13. y sgiliau cyfathrebu priodol i gyflwyno safbwyntiau a diddordebau
14. materion nodweddiadol a meysydd pryder a godwyd wrth eirioli a ffyrdd o'u datrys
15. sut i roi adborth ac adolygu deilliannau eirioli gyda phobl ifanc
16. sut i gymryd unrhyw gamau gofynnol yn dilyn y gynrychiolaeth eirioli
17. codau ymarfer cyfreithiol, sefydliadol a moesegol, canllawiau a gofynion sy'n berthnasol i waith ieuenctid a'ch rôl eich hun
18. y gwerthoedd a'r egwyddorion sy'n sail i waith ieuenctid mewn perthynas â gofynion y safon hon

CLD YW10

Eirioli gyda phobl ifanc, ac ar eu rhan, fel bod eu buddiannau'n cael eu cynrychioli

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | CLD Standards Council Scotland |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 29 Maw 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | CLD Standards Council Scotland |
| **RCU gwreiddiol** | LSI YW15 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithiwr Ieuenctid |
| **Cyfres/Set** | Gwaith Ieuenctid |
| **Geiriau Allweddol** | Ieuenctid; pobl ifanc; gwerthoedd; eiriolir; achos; cymryd rhan; cynrychioli; adborth; deilliannau; nodau; cyfyngiadau; rhwystrau; annog; anghenion; diddordebau; unigolion; grwpiau |